

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

109/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

07/12/2023

Dadansoddiad anghenion a model rhagfynegol o wasanaethau gwybodaeth a chyingor lles cymdeithasol yng Nghymru

Dadansoddiad anghenion a model rhagfynegol o wasanaethau gwybodaeth a chyngor lles cymdeithasol yng Nghymru

Awdur(on): Alma Economics



Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2023). Dadansoddiad anghenion a model rhagfynegol o wasanaethau gwybodaeth a chyngor lles cymdeithasol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 109/2023
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-gwybodaeth-chyngor-lles-cymdeithasol-yng-nghymru>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Joshua Parry

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a

Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o Ffigurau	3
Geirfa	4
1. Crynodeb gweithredol	5
2. Cyflwyniad	9
3. Adolygiad o ddulliau blaenorol o fesur anghenion cyngor	12
4. Methodoleg	18
5. Canfyddiadau	26
6. Casgliadau	43
7. Cyfeiriadau	45
8. Atodiad A: Ffynonellau data	48
9. Atodiad B: Adeiladu lefelau hanesyddol o angen cyngor	54
10. Atodiad C: Modelau ystadegol	58
11. Atodiad D: Canlyniadau ychwanegol.....	61

Rhestr o dablau

Tabl 4.1: Mesurau angen yn ôl categori cyngor	19
Tabl 4.2: Manyleb model ystadegol	22
Tabl 5.2: Nifer o faterion cyngor (2022/23)	30
Tabl 5.3: Angen cyngor ar fudd-daliadau lles (2022/23)	32
Tabl 5.4: Angen cyngor ar ddyledion (2022/23)	33
Tabl 5.5: Angen cyngor ar gyflogaeth (2022/23)	34
Tabl 5.6: Angen cyngor ar dai a chymdogion (2022/23)	35
Tabl 5.7: Angen cyngor defnyddwyr a chyllid – nifer (2022/23)	36
Tabl 5.8: Cyfran y boblogaeth ag anghenion cyngor yn ôl dwysedd poblogaeth	42
Tabl 8.1: Deall Cymdeithas - Newidynnau a chwestiynau arolwg	48
Tabl 8.2: Maint sampl ar gyfartaledd fesul ton	51
Tabl 8.3: Setiau data ychwanegol	52
Tabl 9.1: Cyfrifo mesurau angen cyngor	55
Tabl 10.1: Manylebau atchweliad	58
Tabl 11.1: Angen cyngor Lles 2022/23 – 2025/26	61
Tabl 11.2: Angen cyngor Dyledion 2022/23 – 2025/26	62
Tabl 11.3: Angen cyngor Cyflogaeth 2022/23 – 2025/26	63
Tabl 11.4: Angen cyngor Tai a Chymdogion 2022/23 – 2025/26	64
Tabl 11.5: Angen cyngor Defnyddwyr a Chyllid 2022/23 – 2025/26	65
Tabl 11.6: Cyfanswm materion cyngor 2022/23 – 2025/26	66

Rhestr o Ffigurau

Ffigur 5.1: Esblygiad angen yng Nghymru (2022/23-2025/26).....	38
Ffigur 5.2: Dadansoddiad senario ar gyfer anghenion defnyddwyr a chyllid	39
Ffigur 5.3: Dadansoddiad senario ar gyfer anghenion tai a chymdogion	41

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
SAF	Cronfa Gyngori Sengl
NAN	Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol
MaPS	Gwasanaeth Arian a Phensiynau
OBR	Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol
ONS	Swyddfa Ystadegau Gwladol
ALI	Awdurdod Lleol
DWP	Adran Gwaith a Phensiynau

1. Crynodeb gweithredol

- 1.1 Mae gwasanaethau cynghori yn rhoi cyngor diduedd am ddim i bobl ar faterion y maent yn eu hwynebu. Maent yn chwarae rhan ganolog mewn grymuso unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cysylltu ag adnoddau hanfodol. Yn ogystal, mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig cymorth arbenigol ar faterion cymhleth, megis materion cyfreithiol neu ariannol.
- 1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi gwasanaethau gwybodaeth a chynghor. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr ymchwil hwn gyda'r nod o asesu'r angen am wasanaethau cynghori yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- 1.3 Arweiniwyd yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn gan fwrdd ymchwil gyda chynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol. Mae'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yn dod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd i gefnogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau gwybodaeth a chynghor lles cymdeithasol (Llywodraeth Cymru 2018).
- 1.4 Mae'r ymchwil hwn yn rhoi amcangyfrifon meintiol o'r angen am wybodaeth a chynghor lles cymdeithasol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ac i Gymru gyfan. Mae'n canolbwyntio ar bum maes o ddiddordeb: (1) Budd-daliadau Lles; (2) Dyledion; (3) Defnyddwyr a Chyllid; (4) Tai a Chymdogion; a (5) Cyflogaeth. Mae amcangyfrifon o'r angen am gyngor ar gyfer chweched maes, sef gwahaniaethu, yn cael eu casglu drwy ddefnyddio amcangyfrifon y meysydd a grybwyllwyd uchod. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno amcangyfrifon ar gyfer y blynyddoedd 2022/23 hyd at 2025/26.
- 1.5 Dim ond ychydig o ymdrechion a wnaed i asesu lefelau anghenion cyngor y boblogaeth. Nid yw'r rhain i raddau helaeth wedi ceisio mesur anghenion cyngor yn benodol. Mae ein gwaith yn adeiladu ar ddarnau blaenorol o ymchwil sydd wedi ceisio gwneud hyn, sef yr asesiad anghenion cyngor blaenorol a gynhyrchwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017) ac asesiadau o angen dyledion gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (Das, 2021; Das, 2022).
- 1.6 Nid yw lefelau presennol y ddarpariaeth gwasanaeth yn ddangosydd dibynadwy o lefel yr angen yn y boblogaeth gan fod y ddarpariaeth yn gyfyngedig ac yn cael ei

harwain gan y cyllid sydd ar gael, ac efallai na fydd rhai unigolion yn ceisio cyngor hyd yn oed pan fyddent yn elwa ohono oherwydd diffyg gwybodaeth am wasanaethau cynghori neu'r materion y maent yn eu hwynebu. Yn hytrach, rydym wedi defnyddio ymatebion manwl i gwestiynau arolwg (a gasglwyd fel rhan o'r Astudiaeth Deall Cymdeithas) a data arall ar lefel y boblogaeth i frasamcanu lefel hanesyddol angen yn y boblogaeth ym mhob categori cyngor.

- 1.7 Dim ond tan 2020/2021 y mae data'r arolwg i gyfrifo lefelau hanesyddol o angen ar gael. Er mwyn amcangyfrif lefelau'r angen am gyngor ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, rydym wedi defnyddio dadansoddiad ystadegol i archwilio'r berthynas rhwng ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill a lefelau angen¹. Yna, defnyddiwyd y perthnasoedd hyn i ragweld lefelau angen yn awr ac yn y dyfodol.

Canfyddiadau

- 1.8 Mae'r astudiaeth hon yn canfod bod cyfanswm yr angen am gyngor yn uchel. Rydym yn amcangyfrif bod dros 900,000 o faterion yng Nghymru bob blwyddyn y gallai fod angen cyngor arnynt. Mae hyn yn cynrychioli mwy nag un mater o gyngor i bob tri oedolyn yng Nghymru². Mae gan rai unigolion faterion lluosog sydd angen cyngor, felly mae nifer yr unigolion ag angen cyngor yn llai na nifer y materion o gyngor.
- 1.9 Mae hyn yn uwch na'r lefelau presennol o ddarpariaeth. Nid oes ffigur sengl ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori oherwydd nifer y gwahanol ddarparwyr yn y gofod hwn. Fodd bynnag, cefnogodd Cyngor ar Bopeth Cymru, y darparwr gwasanaethau cynghori unigol mwyaf yng Nghymru, 130,000 o bobl yn y flwyddyn rhwng Mai 2022 a Mai 2023³. Golyga hyn bod rhai unigolion yn gwneud penderfyniadau heb gyngor a allai eu helpu.

¹ Mae ysgogwyr eraill o angen cyngor yn bodoli, er enghraifft, gall newidiadau polisi fel newidiadau mewn rheolau cymhwysedd lles arwain at lefelau uwch o angen am gyngor gan y gallai unigolion elwa ar gyngor i weithio allan sut mae newidiadau yn effeithio ar eu cymhwysedd eu hunain. Mae'r mathau hyn o newidiadau yn digwydd dros nifer o flynyddoedd a gall cyflymder gweithredu'r rhain amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn ogystal, nid yw'n bosibl gwybod pa newidiadau y gellir eu gwneud i feini prawf cymhwysedd yn y dyfodol. Felly, nid ydym wedi ymgorffori newidiadau polisi neilltuol yn benodol yn ein hamcangyfrifon o angen. Esbonnir ein dull yn fanylach yn yr adran ar fethodoleg a'r atodiadau technegol.

² Yn seiliedig ar ffigurau Cyfrifiad y DU 2021 ar gyfer Cymru a ddangosodd fod y boblogaeth dros 16 oed yn 2.6 miliwn (ONS 2022c).

³ Cyngor ar Bopeth (2023b). Tab: *Pobl: Cyfrifft*, Hidlyddion: *Rhanbarth: Cymru*

- 1.10 Mae anghenion cyngor yn amrywio yn ôl categori. Rydym yn amcangyfrif mai anghenion cyngor lles sydd fwyaf cyffredin, yna defnyddwyr a chyllid, tai a chymdogion, dyledion, a chyflogaeth. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd gorgyffwrdd sylweddol ag unigolion ag anghenion cyngor mewn categorïau lluosog. Canfuwyd bod hyn yn wir ymhlith unigolion sy'n derbyn cyngor. Er enghraifft, adroddodd Cyngor ar Bopeth Cymru, o'r holl unigolion a welsant a oedd angen cyngor ar fudd-daliadau a chredydau treth yn y ddwy flynedd hyd at fis Mai 2023, roedd 24% angen cyngor ar ddyledion hefyd⁴.
- 1.11 Y categori mwyaf oedd anghenion cyngor lles, rhywbeth sy'n cyfateb i ddata cyfredol gan ddarparwyr gwasanaethau cynghori⁵. Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod gan 296,000 o bobl (11% o'r boblogaeth⁶) angen cyngor lles ym mlwyddyn ariannol 2022/23. Erbyn blwyddyn ariannol 2025/26 rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn codi i 322,000 o bobl (12%).
- 1.12 Amcangyfrifwyd bod 153,000 o bobl (6%) angen cyngor ar ddyledion ym mlwyddyn ariannol 2022/23. Disgwyliwn i hyn godi i 244,000 (9%) erbyn blwyddyn ariannol 2025/26. Mae'n bosibl y bydd rhai unigolion sydd â phroblemau cyngor yn ymwneud â thai neu fforddiadwyedd ynni, a nodir mewn categorïau eraill yn yr adroddiad hwn, hefyd yn elwa ar gyngor ar ddyledion, a fyddai'n cynyddu'n fwyfwy yr angen am gyngor ar ddyledion.
- 1.13 Amcangyfrifwyd bod 119,000 o bobl (5%) angen cyngor cyflogaeth yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Dyma'r categori lleiaf o anghenion a ystyriwyd gennym a disgwyliar iddo aros yn wastad yn y blynyddoedd i ddod (5% o'r boblogaeth yn 2025/26).
- 1.14 Amcangyfrifwyd bod 169,000 o bobl (6%) angen cyngor ar dai a chymdogion ym mlwyddyn ariannol 2022/23. Disgwyliwn gynnydd serth yn lefel yr angen yn y categori hwn i 279,000 (11%) ym mlwyddyn ariannol 2025/26 wrth i gyfraddau morgais godi.

⁴ Cyngor ar Bopeth (2023b). Tab: *Clwstwr: Materion* Hidlyddion: *Rhanbarth: Cymru, Categori: Budd-daliadau a chredydau treth*

⁵ Cyngor ar Bopeth (2023b). Tab: *Pobl: Cyfrif* Hidlyddion: *Rhanbarth: Cymru*

⁶ Mae'r holl ffigurau poblogaeth a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn ar gyfer y boblogaeth 16 oed a hŷn.

- 1.15 Amcangyfrifwyd fod angen cyngor defnyddwyr a chyllid ar 179,000 o bobl (7%) ym mlwyddyn ariannol 2022/23. Disgwylwn i hyn godi i 244,000 (9%) yn 2025/26.
- 1.16 Mae ein model yn dangos sut y gall siociau cadarnhaol a negyddol effeithio ar nifer y bobl sydd angen cyngor. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd cadarnhaol lle mae data macro-economaidd yn well na'r rhagolygon presennol, mae cyfanswm y bobl sydd angen cyngor yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'r lefelau presennol o ddarpariaeth gwasanaeth. Nid oedd gwahaniaethau mawr rhwng y patrwm angen mewn ardaloedd trefol a gwledig.
- 1.17 Mae gwahaniaethu yn debygol o fod yn ffactor mewn rhai anghenion cyngor, yn enwedig yn achos cyngor cyflogaeth. Mae'n anodd amcangyfrif nifer yr achosion o wahaniaethu ar wahân ar sail y data sydd ar gael. Fodd bynnag, mae data gan ddarparwyr gwasanaethau cynghori yn awgrymu y gallai gwahaniaethu fod yn ffactor mewn tua 5% o'r holl anghenion cyngor cyflogaeth.
- 1.18 Yn olaf, datblygwyd offeryn modelu fel rhan o'r prosiect hwn a fydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyfrifo rhagolygon wedi'u diweddarau neu gynnal dadansoddiad senarios ychwanegol yn y dyfodol yn seiliedig ar ddata wedi'i ddiweddarau.

2. Cyflwyniad

Cyd-destun

- 2.1 Mae gwasanaethau cynghori yn darparu cymorth gwerthfawr i unigolion sy'n wynebu ystod eang o heriau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi gwasanaethau gwybodaeth a chyngor sy'n darparu cyngor diduedd am ddim. Fel y nodwyd yn Fframwaith ansawdd gwybodaeth a chyngor Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2022), mae wedi ymrwymo i gryfhau gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyda'r nod o helpu pobl i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud penderfyniadau gwybodus.
- 2.2 Ariennir gwasanaethau cynghori drwy nifer o sianeli gan gynnwys cyllid llywodraeth leol a chenedlaethol, byrddau iechyd, cyfleustodau, elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau.⁷ Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Gyngori Sengl (SAF) gan gyfuno ei chyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori. Ei nod yw sicrhau bod cyllid gwasanaethau cynghori wedi'i gynllunio'n strategol, yn gost-ffeithiol, a bod ansawdd wedi'i sicrhau.
- 2.3 Yn 2020, dosbarthwyd cyllid grant o £8.04m i ddarparwyr cyngor drwy'r SAF i gefnogi gwasanaethau cynghori arloesol ac integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i helpu pobl pan fyddant ei angen fwyaf. Dyrannwyd y cyllid rhwng chwe rhanbarth⁸ a gwasanaeth cynghori o bell Cymru-gyfan a oedd yn cynnwys opsiynau cyngor dros y ffôn ac e-bost. Cyngor ar Bopeth Cymru yw'r corff arweiniol ym mhob consortiwm cyngor ac mae'n darparu is-grantiau i'w partneriaid o'i ddyfarniad grant SAF. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaid cyngor lleol a chenedlaethol sy'n darparu ystod eang o wasanaethau cynghori yn ogystal â phartneriaid mynediad sy'n canolbwyntio ar grwpiau penodol neu faterion cyngor. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth gydag Advicelink Cymru⁹ yn darparu cyngor gyda sicrwydd ansawdd ar fudd-daliadau lles, dyledion, cyflogaeth, addysg, tai, mewnfudo a gwahaniaethu. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn cydweithredu â phartneriaid mynediad amrywiol, fel Shelter Cymru a Barnardo's Cymru, sy'n arbenigwyr ar ymgysylltu â grwpiau targed a chymunedau penodol ledled Cymru. Mae Advicelink Cymru yn estyn allan i

⁷ Pennod 3 yr adroddiad Cyfiawnder yng Nghymru i Bobl Cymru. Ar gael yn: [Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru \(Llywodraeth Cymru\)](#)

⁸ Caerdydd a'r Fro, Bae Abertawe, Gwent, Cwm Taf, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru

⁹ Mwy o wybodaeth: [Advicelink Cymru \(Cyngor ar Bopeth\)](#)

gleientiaid yn rhagweithiol (yn aml trwy'r partneriaid mynediad hyn) i gynnig gwasanaethau cynghori i'r rhai sydd â'r angen mwyaf cyn iddynt fod mewn argyfwng.

- 2.4 Cefnogir yr ymdrech hon gan y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol (NAN), sy'n dod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd gan gynnwys cyllidwyr a darparwyr cyngor ac sy'n rhoi cyngor arbenigol i Weinidogion Cymru ar sut i ddatblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau gwybodaeth a chynghor ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys lledaenu arferion gorau, cefnogi cydweithredu, hyrwyddo gwasanaethau o ansawdd, a datblygu mesurau canlyniadau cyffredin sy'n galluogi'r sector i ddangos ei werth.

Cwestiynau ymchwil

- 2.5 Comisiynwyd y dadansoddiad hwn i sicrhau bod polisi gwasanaethau cynghori yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o angen. Nid yw'r lefelau presennol o ddarpariaeth gwasanaeth yn ddangosydd dibynadwy o lefel yr angen yn y boblogaeth gan fod y ddarpariaeth yn gyfyngedig ac yn cael ei harwain gan y cyllid sydd ar gael, ac efallai na fydd rhai unigolion yn ceisio cyngor hyd yn oed pan fyddent yn elwa ohono oherwydd diffyg gwybodaeth am y gwasanaethau cyngor neu'r materion y maent yn eu hwynebu. Er enghraifft, canfu'r Arolwg o Anghenion Cyfreithiol unigolion yng Nghymru a Lloegr fod "lefelau is o hyder cyfreithiol a chanfyddiadau isel bod cyfiawnder yn hygyrch yn gysylltiedig â bod yn llai tebygol o gael cymorth proffesiynol" (Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol a Chymdeithas y Cyfreithwyr, 2019).
- 2.6 Amcan yr ymchwil hwn yw darparu amcangyfrifon meintiol wedi'u diweddarau o'r angen presennol ac yn y dyfodol ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf (2023/24, 2024/25, 2025/26) am wybodaeth a chynghor lles cymdeithasol ym mhob Awdurdod Lleol gan ganolbwyntio ar bum maes o ddiddordeb: (1) Budd-daliadau Lles; (2) Dyled; (3) Defnyddwyr a Chyllid; (4) Tai a Chymdogion; (5) Cyflogaeth.
- 2.7 Mae materion budd-daliadau lles yn ymwneud â chymhwysedd i gael budd-daliadau a mynediad iddynt. Gall hyn fod ar gyfer darpar-hawlwyr neu hawlwy'r presennol. Gellir darparu cyngor ar ddyledion mewn perthynas ag unrhyw fath o ddyled gan gynnwys dyledion ffurfiol megis morgais, cerdyn credyd, benthyciadau ac ati a dyledion anffurfiol megis benthyciadau gan ffrindiau a theulu. Gall cyngor i Ddefnyddwyr a Chyllid gefnogi unigolion i ymdrin â materion hawliau defnyddwyr.

Mae llawer o'r materion defnyddwyr a chyllid a adroddwyd yn y data Cyngor ar Bopeth yn ymwneud â chyfleustodau¹⁰ a thwyll. Gall cyngor ar dai a chymdogion ymwneud â materion fel safon tai, fforddiadwyedd tai a sicrwydd deiliadaeth. Yn olaf, gall cyngor cyflogaeth ymdrin ag amodau cyflogaeth, hawliau, sicrwydd swydd a materion yn ymwneud â diswyddo ymhlith materion eraill.

- 2.8 Mae chweched maes, gwahaniaethu, yn debygol o fod yn ffactor mewn anghenion cyngor i rai unigolion. Er nad oes digon o ddata i fodelu cyffredinolrwydd gwahaniaethu fel gyrrwr annibynnol ar anghenion cyngor, cytunodd y bwrdd ymchwil i ystyried y gorgyffwrdd tebygol rhwng anghenion cyngor yn y pum maes uchod gyda gwahaniaethu. Hynny yw, y gyfran o'r angen am gyngor amcangyfrifedig ym mhob categori lle mae gwahaniaethu yn debygol o fod yn ffactor.

Strwythur yr adroddiad

- 2.9 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau a ganlyn:
- 2.10 Mae Adran 3 yn cynnwys adolygiad o ddulliau blaenorol o asesu lefel yr anghenion cyngor yn y DU.
- 2.11 Mae Adran 4 yn ymdrin â'n dull methodolegol. Mae hyn yn cynnwys sut rydym wedi mesur angen, y dadansoddiad ystadegol a wnaethom, a thrafodaeth ar gyfyngiadau'r dull a ddefnyddiwyd.
- 2.12 Mae Adran 5 yn nodi ein canfyddiadau ar gyfer pob categori o angen am gyngor i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddiad senario dangosol i ddeall sut y gallai newidiadau yn y rhagolygon economaidd effeithio ar yr angen tymor byr am gyngor.
- 2.13 Mae Adran 6 yn crynhoi casgliadau'r adroddiad ac yn amlinellu meysydd posibl ar gyfer ymchwil pellach.
- 2.14 Mae Adran 7 yn cynnwys llyfryddiaeth yr adroddiad.
- 2.15 Mae'r atodiadau yn adrannau 8 i 11 yn cyflwyno manylion methodolegol technegol ychwanegol a chanfyddiadau.

¹⁰ Cyngor ar Bopeth (2023b). Tab: *Materion: Pynciau* Hidlyddion: *Rhanbarth: Cymru, Categori: Nwyddau a gwasanaethau defnyddwyr, Gwasanaethau ariannol a galluogrwydd*

3. Adolygiad o ddulliau blaenorol o fesur anghenion cyngor

- 3.1 Cynhaliwyd adolygiad o brosiectau tebyg ac ymgysylltwyd ag arbenigwyr pwnc mewn rhai categorïau o angen cyngor (Gwasanaeth Arian a Phensiynau a Shelter Cymru). Mae llenyddiaeth gyfyngedig ar gael ar fodelu'r angen am wybodaeth a chyngor lles cymdeithasol.
- 3.2 Mae'r ddarpariaeth gwasanaethau cynghori a welir a'r galw am wasanaethau cynghori yn annhebygol o ddal yr holl anghenion sy'n bodoli yn y boblogaeth. Gallai hyn fod am sawl rheswm. Mae darpariaeth gwasanaeth yn cael ei gyfyngu gan y cyllid sydd ar gael. Efallai na fydd unigolion a allai elwa ar gyngor yn dod ymlaen a cheisio cael mynediad at wasanaethau cynghori. Efallai hefyd na fydd unigolion yn sylweddoli y buasant yn elwa o gael cyngor lles cymdeithasol.
- 3.3 O ganlyniad, mae astudiaethau wedi ceisio defnyddio data lefel poblogaeth ehangach i ddeall cyfanswm y lefel debygol o angen yn y boblogaeth. Mae gwaith blaenorol yn y DU yn disgyn i dri grŵp eang, gyda rhywfaint o orgyffwrdd rhwng grwpiau.
- dulliau ad-hoc yn seiliedig ar gysylltiadau a arsylwyd rhwng yr angen am gyngor a nodweddion unigol
 - dulliau sy'n seiliedig ar arolygon
 - dulliau modelu

Dulliau sy'n cysylltu angen cyngor â nodweddion poblogaeth penodol

- 3.4 Yn yr enghreifftiau hyn, y duedd yw i nodi ysgogwyr ar gyfer angen cyngor, heb gynhyrchu amcangyfrifon o angen. Er enghraifft, mewn adolygiad o wasanaethau cynghori yn Llundain (Cynghrair Gwasanaethau Cynghori, 2020), damcaniaethodd yr awduron, yn seiliedig ar dystiolaeth ansoddol o ddata cyfweiliadau a gwasanaethau cynghori, fod y dangosyddion canlynol yn rhagfynegi angen am gyngor:
- statws mewnfudo
 - statws cyflogaeth
 - incwm a dyled
 - budd-daliadau a lles

- 3.5 Cynhyrchwyd mapiau o Lundain yn seiliedig ar y dangosyddion gan gynnwys nifer y rhai sy'n hawlio budd-daliadau a'r gyfran o'r boblogaeth sy'n ennill llai na'r cyflog byw. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd dadansoddiad pellach o'r dangosyddion hyn, na chynhyrchu amcangyfrifon o lefel yr angen am gyngor ar draws Llundain yn ei chyfanrwydd.
- 3.6 Yn yr un modd, mae adolygiad o wasanaethau cynghori a ariennir yn gyhoeddus yn yr Alban (Stevenson, 2018) yn ystyried ysgogwyr angen am gyngor heb geisio amcangyfrif lefelau angen. Mae'r adolygiad yn nodi'r categorïau bras canlynol o ysgogwyr ac yn nodi y bydd cydadwaith rhyngddynt. Y categorïau yw:
- digwyddiadau bywyd fel newidiadau yng nghyfansoddiad aelwydydd neu amgylchiadau materol aelwydydd
 - newidiadau mewn amgylchiadau macro-economaidd neu bolisiâu'r llywodraeth
 - lefel y cyfalaf dynol a chymdeithasol sydd gan unigolion
- 3.7 Mae'r adolygiad hefyd yn cysylltu tlodi ag angen am gyngor ac yn cyfeirio at ystod o grwpiau sy'n fwy tebygol o fod angen gwasanaethau cynghori oherwydd y tebygolrwydd cynyddol y byddant yn profi tlodi, gan dynnu ar Gibbons a Foster (2014). Ymhlith eraill, mae hyn yn cynnwys pobl sy'n derbyn budd-daliadau diweithdra; teuluoedd â phlant; aelwydydd pensiynwyr; grwpiau ethnig lleiafrifol, a cheiswyr lloches.
- 3.8 Mae'r dulliau hyn yn addas i ddarparu dealltwriaeth eang o'r angen am gyngor yng nghyd-destun gwerthusiadau, ond nid ydynt yn rhoi amcangyfrifon manwl o lefelau neu newidiadau yn yr angen am gyngor. Yn wir, mae'r astudiaeth yn yr Alban yn nodi "nad oes digon o lenyddiaeth sy'n mynegi'r angen ar draws y sector cynghori ehangach ar hyn o bryd, sy'n ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau penodol mewn perthynas ag angen nas diwallwyd". O ganlyniad, rydym wedi canolbwyntio mwy ar astudiaethau sy'n ceisio llenwi'r bwloch hwn drwy amcangyfrif yn feintiol yr anghenion am gyngor.

Arolygon sy'n archwilio "materion cyfreithiol" ar draws y boblogaeth

- 3.9 Mae dulliau sy'n seiliedig ar arolygon yn fwy addas i amcangyfrif cyffredinolrwydd yr angen am gyngor ar lefel genedlaethol. Nid ydynt yn dibynnu ar ddata am unigolion

sy'n defnyddio gwasanaethau cyngori yn unig, ond gellir eu llunio i gynrychioli'r boblogaeth ehangach a gallant dargedu mesurau angen ehangach. Fodd bynnag, heb waith dadansoddol pellach, mae maint y sampl sydd ei angen i amcangyfrif anghenion ar lefelau is-genedlaethol yn gofyn am arolwg mawr gydag adnoddau sylweddol. Her ychwanegol yw bod rhai grwpiau poblogaeth sy'n debygol o fod ag anghenion cyngor uchel yn debygol o gael eu tangynrychioli'n systematig mewn arolygon. Yn nodedig, bydd hyn yn cynnwys llawer o unigolion sy'n profi digartrefedd gan gynnwys y rhai sy'n cysgu ar y stryd neu'r rhai sy'n byw mewn llety dros dro. Bydd hefyd yn cynnwys oedolion hŷn sy'n byw mewn gofal preswyl a myfyrwyr sy'n byw mewn neuaddau preswyl¹¹.

- 3.10 Enghreifftiau o'r dull hwn yw'r dadansoddiadau o Arolwg Panel Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol Cymru a Lloegr yn Pleasence et al. (2010) a Pleasence et al (2011) a Balmer (2013). Mae'r arolwg hwn yn canolbwyntio ar amllder, effaith, a datrysiad problemau cyfiawnder sifil ar draws ystod o gategoriâu gan gynnwys tai a chyflogaeth. Canfu Balmer (2013) fod 32% o ymatebwyr (ymhlith sampl o 3,911 o ymatebwyr dros 16 oed yng Nghymru a Lloegr) yn dweud eu bod wedi profi problem cyfiawnder sifil. Roedd problemau wedi'u crynhoi'n fwy mewn grwpiau agored i niwed fel y rhai ag anabledd cyfyngus hirdymor neu'r rhai ar fudd-daliadau. Mae arolygon dilynol gan gynnwys yr Arolwg Problemau a Datrysiad Cyfreithiol, 2014-15 ac Arolwg Anghenion Cyfreithiol Unigolion yng Nghymru a Lloegr, 2019-20 wedi parhau i fesur nifer yr achosion o anghenion cyfreithiol ond maent wedi addasu'r fethodoleg a'r dull arolwg fel na ellir o reidrwydd gymharu'r canlyniadau ar draws arolygon.
- 3.11 Un llinyn cyffredin ar draws arolygon yw nad yw cyfran fawr o unigolion sy'n profi problemau yn ceisio cyngor gan ffynonellau proffesiynol. Er enghraifft, yn 2020, ni chafodd 34% o bobl a oedd wedi cael problem gyfreithiol (allan o sampl cynrychioliadol o 28,663 o bobl ledled Cymru a Lloegr) yn y 4 blynedd diwethaf unrhyw gymorth o gwbl (Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol a Chymdeithas y Cyfreithwyr, 2020). O'r 66% a geisiodd gymorth, cafodd 11% arall help gan ffrindiau a theulu, gan adael 55% a dderbyniodd gymorth proffesiynol.

¹¹ Gweler Balmer (2013) am drafodaeth fanylach ar gyfyngiadau ffrâm sampl Arolwg y Panel Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol.

Modelu dulliau o amcangyfrif anghenion cyngor

- 3.12 Gan adeiladu ar ddata arolwg, cafwyd nifer fach o brosiectau a amcangyfrifodd anghenion cyngor is-genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys ymchwil blaenorol Llywodraeth Cymru yn y maes hwn (Llywodraeth Cymru, 2017), a gwaith y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (Das, 2021; Das, 2022) i amcangyfrif yr angen am gyngor ar ddyledion. Mae MaPS ar hyn o bryd yn cynnal ymchwil i ddiweddarau ei fesur Angen cyngor ar Ddyledion gan ddefnyddio mewnwleidiadau o'r llenyddiaeth a'r dadansoddiad ystadegol (Das, 2021).
- 3.13 Seiliwyd gwaith presennol MaPS (Das, 2021) ar: adolygiad llenyddiaeth allanol o ymchwil ar ddangosyddion cynnar sy'n helpu i ragweld yr angen am gyngor ar ddyledion (yn enwedig rhagflaenwyr economaidd-gymdeithasol a dangosyddion ymddygiad), a dadansoddiad ystadegol dilynol o'r data a gasglwyd drwy Arolwg Anghenion Dyledion 2021 o 22,000 o oedolion y DU. Dangosodd yr adolygiad llenyddiaeth fod llawer o'r dangosyddion yr un fath â'r rhai a gesglir yn yr Arolwg Anghenion Dyledion blynyddol. Y cwestiynau hynny oedd:
- a oedd yr ymatebwyr ar ei hôl hi yn rheolaidd gyda biliau a chredyd;
 - a oedd yn rhaid iddynt ymdrin ag ôl-ddyledion;
 - a oeddent wedi wynebu digwyddiadau andwyol fel camau cyfreithiol neu gyswllt gan feiliaid;
 - a oeddent yn defnyddio credyd cost uchel.
- 3.14 Dangosodd y canfyddiadau y gall nodweddion pobl sydd angen cyngor ar ddyledion amrywio'n fawr, ond y grwpiau amlycaf yw pobl ifanc (fel arfer o dan 30 oed) ac aelwydydd incwm isel (llai na £20k y flwyddyn). Gall yr arolwg roi amcangyfrifon o nifer yr achosion cenedlaethol o anghenion cyngor ar ddyledion. Mae MaPS hefyd yn defnyddio technegau modelu economaidd i fynd ymlaen i amcangyfrif anghenion cyngor ar ddyledion ar lefel awdurdodau lleol. Mae'r gwaith hwn yn addysgiadol, ond dim ond â'r categori cyngor ar ddyledion y mae'n ymdrin - nid oes unrhyw ymchwil o ansawdd tebyg mewn categorïau eraill o angen cyngor ac mae cynnal ymchwil o'r fath y tu hwnt i gwmpas y prosiect hwn. At hynny, nid yw MaPS ar hyn o bryd yn rhagfynegi'r lefelau anghenion cyngor ar ddyledion yn y dyfodol.

- 3.15 Mae'r gwaith blaenorol ar fodelu'r angen am gyngor yng Nghymru yn cyfuno gwybodaeth o ddwy brif set ddata, sy'n deillio'n bennaf o Arolwg y Panel Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol ac Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017). Ffurfiwyd model atchweliad llinol cyffredinol¹² o ddata a gafwyd o'r Arolwg Panel Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol ac Arolwg Cenedlaethol Cymru. Defnyddiwyd y set ddata gyntaf i ddarparu rhagfynegwyr o angen am gyngor yn seiliedig ar nifer yr achosion ar lefel genedlaethol, a defnyddiwyd yr ail set ddata i amcangyfrif nifer yr achosion o angen ar lefel awdurdod lleol.
- 3.16 Defnyddiodd yr astudiaeth ganfyddiadau Arolwg y Panel Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol ar y mathau o broblemau traddodadwy a brofwyd gan ymatebwyr¹³. Defnyddiwyd y mewnwleidiadau hyn ynghyd â data demograffig o'r arolwg a rhywfaint o ddata ychwanegol o ffynonellau eraill i lunio'r newidynnau dibynnol ar gyfer y modelau. Nid yw Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys unrhyw wybodaeth am broblemau traddodadwy ond roedd yn cynnwys y newidynnau annibynnol a ddefnyddiwyd yn y modelau atchweliad. Roedd hyn yn caniatáu i amcangyfrifon cyffredinolrwydd gael eu cyfrifo ar gyfer pob awdurdod lleol er nad oedd maint sampl yr arolwg yn ddigon mawr i amcangyfrif canlyniadau ar y lefel honno. Dangosodd y canfyddiadau ddisbarthiad gwahanol fathau o broblemau traddodadwy ledled Cymru.
- 3.17 Drwy seilio amcangyfrifon ar ffigurau cyffredinolrwydd yr Arolwg y Panel Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol, roedd yr astudiaeth hon yn gallu gweld gorgyffwrdd rhwng unigolion a ddywedodd eu bod wedi profi problemau cyfreithiol mewn mwy nag un categori. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu bod yr amcangyfrifon o angen yn seiliedig ar y diffiniad o angen cyfreithiol a fabwysiadwyd gan yr arolwg, a'u bod yn dal y materion a brofwyd gan bobl a samplwyd yn yr arolwg. Fel y trafodwyd ym mharagraff 3.9 ac yn Balmer (2013), roedd rhai grwpiau'n debygol o fod wedi'u tangynrychioli yn y sampl. Mae hyn yn cynnwys grwpiau y credwn eu bod yn debygol iawn o fod angen cyngor (yn arbennig, unigolion mewn llety dros dro neu sy'n profi digartrefedd).

¹² Mae'r dull hwn yn caniatáu hyblygrwydd wrth fodelu mynychder angen. Ceir rhagor o fanylion am y rhesymeg dros y dewis hwn yn Llywodraeth Cymru (2017).

¹³ Mae problemau "traddodadwy" yn cyfeirio at faterion sy'n codi materion cyfreithiol a allai arwain yn y pen draw at achos llys neu weithdrefnau cyfreithiol os na chânt eu datrys (Llywodraeth Cymru 2017).

4. Methodoleg

Mesurau o angen

- 4.1 Y brif her wrth asesu'r lefelau angen am gyngor ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yw nad yw'r angen yn weladwy. Mewn egwyddor, gallai'r angen presennol gael ei frasmcanu gan lefel y gwasanaeth a ddarperir; fodd bynnag, un o ganfyddiadau ein hadolygiad o'r llenyddiaeth a thrafodaethau ag arbenigwyr yn y sector yw nad yw lefel bresennol y ddarpariaeth gwasanaeth yn debygol o fod yn ddangosydd dibynadwy o lefel yr angen yn y boblogaeth. Yn gyntaf, caiff y ddarpariaeth ei phennu gan y cyllid sydd ar gael, ac felly mae'n adlewyrchu'r cyflenwad o wasanaethau cynghori yn hytrach na'r galw am wasanaethau. Yn ail, efallai na fydd rhai unigolion yn ceisio cyngor hyd yn oed pan fyddent yn elwa ohono oherwydd diffyg gwybodaeth am wasanaethau cynghori neu'r materion y maent yn eu hwynebu.
- 4.2 Mae ein mesur o angen yn seiliedig ar ddata arolwg sy'n dal nifer yr unigolion a allai elwa o wasanaethau cynghori. Er enghraifft, mae angen sy'n gysylltiedig â chyngor ar ddyledion yn cael ei frasmcanu gan nifer yr unigolion sydd wedi bod ag ôl-ddyledion ar filiau neu'r dreth gyngor, a mesurir angen sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn ôl nifer yr unigolion sy'n canfod bod ganddynt sicrwydd swydd gwael neu fodlonrwydd swydd isel iawn.
- 4.3 Mae cymhelliant y dull hwn yn ddeublyg. Yn gyntaf, mae'n ddamcaniaethol gadarn gan ei fod yn rhoi brasamcan synhwyrol o gyfanswm y bobl a allai ofyn am gyngor. Yn ail, mae'n ymarferol gan fod digon o ddata i weithredu'r mesurau angen cyngor ar lefel genedlaethol ac ALI. Yn ogystal, mae'r dull yn gyson â gwaith blaenorol yn y maes hwn a wnaed i Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017) a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (Das, 2021; Das, 2022) lle mae mesur o angen yn cael ei adeiladu o ddata arolwg.
- 4.4 Daw'r data yn bennaf o'r astudiaeth Deall Cymdeithas (a elwir hefyd yn Astudiaeth Hydredol Aelwydydd y DU). Mae hon yn astudiaeth sy'n seiliedig ar arolwg blynyddol o boblogaeth y DU, sy'n casglu ystod eang o ddata gan unigolion ac aelwydydd ac sydd wedi bod yn rhedeg ar ei ffurf bresennol ers 12 mlynedd (gan adeiladu ar yr Arolwg Panel Aelwydydd Prydeinig cynharach).

- 4.5 Mae gan ddata Deall Cymdeithas sawl mantais i'r ymchwil hwn. Yn gyntaf, mae cyfres amser o gasglu data cyson yn ymestyn yn ôl dros ddegawd. Yn ail, mae'n casglu amrywiaeth gyfoethog o wybodaeth am gyfranogwyr, gan ganiatáu i ni ddatblygu mesurau i nodi ystod o anghenion cyngor. Yn olaf, mae dibynnu ar un ffynhonnell ddata sylfaenol yn ein helpu i leihau'r broblem o gyfrif dwbl, a allai arwain at ragfarn yn ein canlyniadau, gan y gallem yn anfwriadol gyfrif yr un unigolion sawl gwaith mewn gwahanol setiau data¹⁴. Ategwyd y data o arolwg Deall Cymdeithas gan setiau data eraill mewn meysydd penodol lle nad oedd yn addas ar gyfer asesu lefelau angen am gyngor.¹⁵ Nodir yr holl ddata a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon yn Atodiad A.
- 4.6 Nodir isod y mesur o angen ar gyfer pob categori o fewn cwmpas yr astudiaeth. Pennwyd y mesurau hyn gan y llenyddiaeth, yn ôl argaeledd data, a thrafodaethau â bwrdd llywio ymchwil y prosiect hwn (gan gynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a NAN) ac arbenigwyr sector. Ceir rhagor o fanylion am sut y lluniwyd y mesurau angen yn Atodiad B.

Tabl 4.1: Mesurau angen yn ôl categori cyngor

Categori	Mesur o angen
Budd-daliadau lles	Mae cyfanswm yr angen yn is-set o gyfanswm y rhai sy'n hawlio ystod eang o fudd-daliadau ¹⁶ . Nod y dull hwn yw cynnwys tri grŵp o unigolion: <ol style="list-style-type: none"> 1. Unigolion sy'n gwneud hawliadau newydd. 2. Unigolion sy'n wynebu ailasesiad neu sancsiynau ar hyn o bryd. 3. Unigolion a all fod yn gymwys i gael budd-daliadau ond nad ydynt yn eu hawlio ar hyn o bryd.

¹⁴ Mae adran Cyfyngiadau'r fethodoleg hon yn rhoi mwy o fanylion am sut yr ymdriniwyd â'r risg hon.

¹⁵ Pan gafodd cyfweiliadau wyneb yn wyneb eu gohirio oherwydd COVID-19, gwahoddwyd pob aelod o'r sampl sy'n oedolion i gwblhau eu cyfweiliad blynyddol ar-lein, gyda sesiwn ddilynol dros y ffôn i'r rhai nad oeddent wedi ymateb. Effeithiodd y newidiadau i gyd-destun a dulliau'r arolwg ar gynrychioladwyedd yr ymatebwyr. Roedd gwahaniaethau bach ond arwyddocaol yn y sampl a ymatebodd yn 2020. Am ragor o fanylion, gweler: [COVID-19 ac effeithiau dewis modd yn Deall Cymdeithas](#). Mae'r newid yng nghyfansoddiad y sampl yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ein canlyniadau gan mai rhan gymharol fach a chwaraeodd data 2020 wrth amcangyfrif a rhagfynegi.

¹⁶ Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Lwfans Anabledd Difrifol, Lwfans Gofalwr, Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini, Taliadau Annibyniaeth Bersonol, Credyd Pensiwn, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Cynhwysol.

Dyledion	Mae cyfanswm yr angen yn seiliedig ar unigolion sydd wedi bod ag ôl-ddyledion ar filiau neu dreth gyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
Cyflogaeth	Mae cyfanswm yr angen yn seiliedig ar nifer yr unigolion sy'n canfod bod ganddynt sicrwydd swydd gwael, neu fodlonrwydd swydd isel iawn.
Tai a Chymdogion	Mae cyfanswm yr angen yn seiliedig ar dri grŵp o unigolion: Y rhai sy'n cael problemau gyda chyflwr eu cartref. Y rhai sy'n cael problemau gyda thalu am dai. Y rhai sy'n profi digartrefedd.
Defnyddwyr a Chyllid	Mae cyfanswm yr angen yn seiliedig ar gyfuniad o faterion yn ymwneud ag ynni, a materion yn ymwneud â thwyll. Sef, nifer y bobl y mae eu prisiau ynni dros 20% o incwm y cartref neu'n ei chael yn anodd gwresogi eu cartref a chyfradd twyll yn y boblogaeth.

- 4.7 Ym mhob categori, rydym yn gyntaf yn amcangyfrif pa gyfran o unigolion sy'n ymateb i Ddeall Cymdeithas ym mhob awdurdod lleol penodol sydd ag angen am gyngor. Yna caiff y gyfran hon ei hategu gan ddata o ffynonellau eraill fel y disgrifir yn Atodiad B er mwyn pennu cyfran derfynol o unigolion sydd mewn angen ym mhob categori ac ym mhob awdurdod lleol. Yna byddwn yn defnyddio'r ffigur hwn, a'r boblogaeth dros 16 oed ym mhob awdurdod lleol i amcangyfrif nifer yr unigolion ym mhob awdurdod lleol sydd angen cyngor.
- 4.8 Ystyriwyd hefyd chweched categori o angen am gyngor, sef gwahaniaethu. Mae'n anodd mesur i ba raddau y mae unigolion angen cyngor oherwydd eu bod yn profi gwahaniaethu. Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw ffynhonnell sy'n darparu'r data manwl angenrheidiol i amcangyfrif yr angen am gyngor ar wahaniaethu. Yn ogystal, mae anghenion cyngor yn ymwneud â gwahaniaethu yn debygol o gael eu profi ochr yn ochr ag anghenion cyngor mewn meysydd eraill. Er enghraifft, gallai profi gwahaniaethu yn y gweithle fod y rheswm pam fod pobl yn ceisio cyngor cyflogaeth.
- 4.9 Felly rydym yn ystyried y nifer tebygol o anghenion cyngor yn y pum maes uchod (budd-daliadau lles, dyledion, cyflogaeth, tai a chymdogion a defnyddwyr a chyllid) sy'n debygol o gynnwys gwahaniaethu. Hynny yw, amcangyfrif o gyfran yr angen

am gyngor ym mhob categori lle mae gwahaniaethu yn debygol o fod yn ffactor. Mae data Cyngor ar Bopeth yn olrhain achosion o wahaniaethu fel ffactor mewn anghenion cyngor eraill fesul categori¹⁷. Cymerwyd cyfran yr achosion Cyngor ar Bopeth ym mhob categori lle cofnodwyd gwahaniaethu fel ffactor rhwng Gorffennaf 2022 ac Ionawr 2023. Yna cymhwyswyd y gyfran honno i'n hamcangyfrifon o angen yn y pum categori uchod i amcangyfrif cyfran yr anghenion cyngor yng Nghymru sydd yn debygol o gynnwys gwahaniaethu. Cytunwyd ar y dull hwn gyda'r bwrdd ymchwil.

- 4.10 Ym mhob categori, rydym yn cyfrifo nifer y bobl y mae angen cyngor arnynt (hynny yw, y bobl a fyddai'n elwa ar gyngor, p'un a ydynt yn ei geisio ai peidio). Fodd bynnag, ni ellir cysylltu'r setiau data a ddefnyddiwyd i greu'r amcangyfrifon ym mhob categori ar lefel yr unigolyn. Mae hyn yn golygu, os byddwn yn cyfuno nifer y bobl ag angen ym mhob categori i greu ffigur ar gyfer nifer y bobl ar draws pob categori sydd angen cyngor, rydym mewn perygl o gyfrif unigolion ddwywaith. Yn hytrach, rydym yn cyflwyno cyfanswm y materion cyngor, gan gydnabod y bydd cyfanswm y bobl yn is oherwydd bod gan rai unigolion anghenion ar draws categorïau lluosog.

Modelau ystadegol

- 4.11 Lluniwyd y mesurau angen cyngor ar gyfer pob blwyddyn o 2009/2010 i 2020/2021 gan ddefnyddio'r data a drafodwyd uchod.¹⁸ Nid oedd data o 2021/2022 ymlaen ar gael ar adeg cynnal yr astudiaeth hon a chawsant eu hamcangyfrif neu eu rhagfynegi drwy ddefnyddio modelau ystadegol. Amcangyfrifwyd y modelau ystadegol gan ddefnyddio data hanesyddol a manteisio ar y cysylltiad rhwng yr angen am gyngor a newidynnau economaidd-gymdeithasol. Er enghraifft, mae'r model cyngor cyflogaeth yn defnyddio'r gydberthynas gadarnhaol rhwng y galw am wasanaethau cyngor cyflogaeth a chyfradd diweithdra i amcangyfrif yr angen presennol ac yn y dyfodol.
- 4.12 Dangosir y rhestr o newidynnau a ddefnyddiwyd ar gyfer pob model ardal-benodol yn Nhabl 4.2.

¹⁷Cyngor ar Bopeth (2023a). Tab: *Gwahaniaethu*

¹⁸ Mae'r amcangyfrifon angen a'r rhagolygon a gynhyrchir yn yr astudiaeth hon yn cyfeirio at flynyddoedd ariannol. Lle'r oedd data rhagolygon ar gael ar gyfer blwyddyn galendr yn unig, cafodd hwn ei fapio i'r flwyddyn ariannol, e.e., defnyddiwyd data 2021 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

Tabl 4.2: Manyleb model ystadegol

Maes cyngor	Newidynnau
Angen lles	Oediad angen lles ¹⁹ , oediad cyfradd twf cyflogau, poblogaeth
Angen dyledion	Oediad angen dyledion, oediad cyfradd twf cyflogau, oediad cyfradd gyfartalog morgais ²⁰
Angen cyflogaeth	Oediad angen cyflogaeth, cyfradd diweithdra, cyfradd twf CDG gwirioneddol y pen
Angen cyngor Tai a Chymdogion	Oediad angen cyngor Tai a Chymdogion, oediad cyfradd forgais cyfartalog, cyfradd diweithdra
Angen cyngor Defnyddwyr a Chyllid	Cyfradd twf CDG go iawn y pen, oediad cyfradd twf cyflogau, oediad prisiau nwy

- 4.13 I gyrraedd y manylebau model hyn, dilynwyd dull dau gam. Yn y cam cyntaf, nodwyd newidynnau posibl y gellid eu cydberthyn â mesurau angen gan ddefnyddio theori a barn economaidd²¹. Yn yr ail gam, profwyd y newidynnau o'r cam cyntaf, gan ystyried gwahanol drawsnewidiadau a chyfuniadau amrywiol o'r newidynnau. Dewiswyd y modelau terfynol gan ddefnyddio meini prawf ystadegol (e.e., gollyngwyd newidynnau diarwyddocâd yn ystadegol, a dewiswyd modelau â't ffit gorau).²² Cyflwynir union fanyleb y model (gwahaniaethau cyntaf a thrawsnewidiadau log), amcangyfrifon cyfernod, ac ystadegau ffit y model yn Atodiad C. Cyflwynir y canlyniadau yn Nhabl 5.1.
- 4.14 Ar wahân i ffactorau cymdeithasol-economaidd, mae'n bosibl bod newidiadau strwythurol, megis newidiadau yn y system les, yn effeithio ar yr angen am gyngor. Serch hynny, mae'r newidiadau hyn yn anodd eu modelu oherwydd bod eu heffeithiau'n datblygu'n raddol dros gyfnod hir o amser ac nid yw'n bosibl rhagweld

¹⁹ Mae'r term oediad yn cyfeirio at ble mae data'n cael ei ddefnyddio o gyfnod blaenorol. Yn yr achos hwn, yr oedi o ran angen lles mewn blwyddyn benodol yw lefel yr angen lles yn y flwyddyn flaenorol.

²⁰ Ni wnaethom brofi mesurau cyfradd llog eraill oherwydd, yn ddamcaniaethol, cyfraddau morgais sydd â'r cysylltiad agosaf ag anghenion dyled. Canfu'r dadansoddiad ystadegol hefyd gysylltiad cryf rhwng cyfraddau morgais ac angen cyngor ar ddyledion.

²¹ Canolbwyntiwyd ar newidynnau lle'r oedd rhagolygon OBR ar gael. Roedd hyn yn diystyru rhai newidynnau a allai fod yn berthnasol megis prisiau rhent.

²² Mae newidynnau eraill a brofwyd yn cynnwys incwm gwario gwirioneddol aelwydydd, prisiau olew a chyfradd twf CDG gwirioneddol. Ni wnaeth y newidynnau hyn wella perfformiad y model, ac felly cawsant eu heithrio.

newidiadau i'r dyfodol dros y blynyddoedd i ddod. O ganlyniad, nid oedd y modelau ystadegol yn ymgorffori ffactorau strwythurol.²³

Rhagolygon angen

- 4.15 Ar ôl sefydlu'r berthynas rhwng angen am gyngor a newidynnau economaidd-gymdeithasol, gwnaethom (1) amcangyfrif yr angen ar gyfer 2021/2022 a 2022/2023 gan ddefnyddio gwerthoedd (hanesyddol) wedi'u gwireddu o'r newidynnau economaidd-gymdeithasol a (2) y rhagolygon angen ar gyfer y cyfnod rhwng 2023/2024 a 2025/2026 gan ddefnyddio gwerthoedd a ragwelwyd i'r newidynnau economaidd-gymdeithasol. Cafwyd y rhagolygon gwerthoedd o'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR)²⁴ a Llywodraeth Cymru. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.
- 4.16 Yn ogystal â'n rhagolygon canolog, datblygwyd setiau amgen o ragolygon gan ddefnyddio gwahanol dybiaethau gyda'r nod o archwilio sensitifrwydd ein rhagolygon i senarios macro-economaidd amgen. Nodir y senarios hyn ynghyd â'r canlyniadau yn yr adran nesaf.

Cyfyngiadau

- 4.17 Mae'r mesur o angen a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon yn ceisio nodi nifer y bobl a fyddai'n elwa o wasanaethau cynghori. Cydnabyddir bod ein mesur o angen yn frasamcan o'r angen gwirioneddol, sy'n anodd ei nodi'n gywir na'i ddilysu drwy ddefnyddio ffynonellau eraill o wybodaeth. Rydym wedi gweithio gyda'r bwrdd ymchwil i sicrhau ein bod wedi defnyddio dulliau rhesymol o gasglu angen ym mhob categori.
- 4.18 Rydym yn defnyddio data o fwy nag un ffynhonnell i amcangyfrif lefel yr angen am gyngor mewn rhai categorïau. Er enghraifft, rydym yn cyfuno data Llywodraeth Cymru ar ddiartrefedd â data Deall Cymdeithas ar faterion fforddiadwyedd tai i amcangyfrif yr angen am gyngor tai. Mae risg y caiff yr un unigolyn ei gyfrif fel rhywun sydd angen cyngor ym mhob set ddata, ac felly byddai'n cael ei gyfrif ddwywaith yn ein hasesiad terfynol o angen. Rydym wedi rheoli'r risg hon trwy

²³ Cipiodd y modelau effaith COVID-19 drwy'r newidynnau economaidd-gymdeithasol, e.e., gostyngodd COVID-19 CDG a chynyddu diweithdra, a oedd yn ei dro yn cynyddu'r angen am wasanaethau cynghori.

²⁴ Defnyddiwyd y rhagolygon OBR a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023. Ar gael yn: [The economy forecast \(OBR\)](#)

gyfuno ffynonellau data dim ond lle rydym yn meddwl nad oes perygl o orgyffwrdd sylweddol (e.e., mae unigolion sy'n profi digartrefedd yn annhebygol o gael eu cynnwys yn ffrâm arolwg Deall Cymdeithas), ond ni allwn ddileu'n llwyr y posibilrwydd o gyfrif dwbl.

- 4.19 Mae arolwg Deall Cymdeithas yn seiliedig ar sampl o unigolion. Mewn rhai ALLau, mae nifer yr unigolion a arolygwyd ym mhob ton yn gymharol fach, sy'n golygu y gallai ein hamcangyfrifon a'n rhagolygon fod yn destun gwallau samplu nad ydynt yn rai dibwys²⁵. Yn benodol, yn ALLau Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam, Ceredigion, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, a Merthyr Tudful, mae maint y sampl yn cynnwys llai na 100 o unigolion.
- 4.20 Mae'r materion sy'n gysylltiedig â maint sampl bach yn cael eu gwaethygu oherwydd gall mwy nag un unigolyn o'r un cartref neu deulu gael eu harolygu yn ystod yr un don. Effaith hyn yw, ar aelwyd lle mae angen cyngor sy'n cael ei asesu drwy ddefnyddio gwybodaeth am y cartref e.e. biliau ynni uchel fel canran o incwm y cartref, yna byddai pob oedolyn a arolygwyd yn yr aelwyd honno'n cael ei asesu fel un sydd angen cyngor²⁶. Mae hyn yn rhesymol gan y gallai pob oedolyn elwa o gyngor. Fodd bynnag, efallai y bydd yn gorbwysleisio lefel yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r unigolion hyn oherwydd gallai darparu cyngor i'r un aelwyd ddatrys yr angen am gyngor i ddau unigolyn. Dull arall fyddai cyfrif anghenion cyngor ar lefel aelwyd yn unig. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn cipio sefyllfa lle y gallai unigolion ar yr un aelwyd neu'r un teulu fod ag anghenion cyngor gwahanol. Rydym felly wedi asesu angen yn gyson ar lefel unigolyn ar draws pob categori.
- 4.21 Er mwyn lliniaru'r gwall amcangyfrif posibl sy'n ymwneud â meintiau bach o samplau, defnyddiwyd dull crebachu. Yn y dull hwn, cyfrifir yr amcangyfrifon angen i bob ALI fel cyfartaleddau pwysol o dair cydran: amcangyfrif penodol i ALI o gyfran yr unigolion sydd angen cyngor, amcangyfrif y Bwrdd Iechyd, a'r amcangyfrif ar gyfer Cymru gyfan.²⁷ Mewn geiriau eraill, mae amcangyfrif angen ALI wedi'i grebachu tuag at amcangyfrifon angen cyfartalog y Bwrdd Iechyd a'r wlad.

²⁵ Byddai hyn yn digwydd pe na bai'r unigolion a samplwyd yn gynrychioliadol o boblogaeth ehangach yr awdurdod lleol hwnnw ac felly ni fyddai casgliadau a dynnwyd o ddata ar gyfer yr unigolion a samplwyd yn ddilys i'r boblogaeth ehangach.

²⁶ Y tri chategori o angen am gyngor a asesir o leiaf yn rhannol ar wybodaeth aelwydydd yw anghenion tai a chymdogion, anghenion dyledion ac anghenion defnyddwyr a chyllid.

²⁷ Y pwysau yw 1/3 ar gyfer y tair ardal ddaearyddol.

4.22 Mae cywirdeb ein rhagolygon yn dibynnu'n bennaf ar ddwy dybiaeth sylfaenol. Yn gyntaf, y berthynas amrywiad amser rhwng angen a newidynnau economaidd-gymdeithasol, ac yn ail, gwireddu'r rhagolygon economaidd-gymdeithasol a ddarparwyd gan yr OBR a Llywodraeth Cymru. Petai gwyradau nodedig oddi wrth y tybiaethau hyn, mae'n bosibl y byddai hynny'n peryglu cywirdeb ein rhagolygon.

Sicrhau ansawdd

4.23 Er mwyn sicrhau ansawdd holl ganlyniadau'r astudiaeth hon, dilynwyd set o weithdrefnau Sicrhau Ansawdd (SA). Adolygwyd y dull a chytunwyd arno gyda bwrdd ymchwil y prosiect a gyfarfu bedair gwaith yn ystod y prosiect. Cynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol hefyd gyda Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Arian a Phensiynau²⁸ a Shelter Cymru²⁹ i sicrhau bod ein dull yn cael ei lywio gan farn arbenigwyr y sector.

4.24 Adolygwyd y cod rhaglennu a ddefnyddiwyd i lanhau data a dadansoddi ystadegol gan ddadansoddwr Alma Economics, yn annibynnol ar dîm y prosiect, a'i wirio am wallau codio. Sicrhwyd ansawdd y dadansoddiad econometrig, gan gynnwys manyleb y model a'r weithdrefn dewis model, gan uwch staff Alma nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith.

²⁸ Cynhaliwyd y cyfarfod ar 28/03/2023. Trafodwyd ymchwil MaPS ar anghenion cyngor ar ddyledion a dulliau damcaniaethol o lunio rhagolygon awdurdodau lleol o ddata arolygon.

²⁹ Cynhaliwyd y cyfarfod ar 28/04/2023. Trafodwyd y mathau o angen am gyngor ar dai a all ddod i'r amlwg a sut y gellid nodi'r rhain.

5. Canfyddiadau

Prif ganfyddiadau:

- Mae cyfanswm lefelau angen yn uwch na'r lefelau presennol o ddarpariaeth gwasanaeth, gan arwain at angen heb ei ddiwallu. Mae unigolion a fyddai'n elwa o dderbyn cyngor felly yn gwneud penderfyniadau heb y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.
- Mae anghenion cyngor yn amrywio yn ôl categori – amcangyfrifwn mai anghenion cyngor lles sydd fwyaf cyffredin, ac yna defnyddwyr a chyllid, tai a chymdogion, dyledion a chyflogaeth. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd gorgyffwrdd sylweddol ag unigolion sydd angen cyngor mewn categorïau lluosog.
- Mae ein model yn dangos sut y gall senarios amgen ar gyfer amgylchedd economaidd yn y dyfodol effeithio ar y nifer sydd angen cyngor. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd cadarnhaol lle mae'r rhagolygon macro-economaidd yn well na'r disgwyl ar hyn o bryd, mae cyfanswm y nifer sydd angen cyngor yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'r lefelau presennol o ddarpariaeth gwasanaeth.
- Nid oedd gwahaniaethau mawr rhwng y patrwm angen mewn ardaloedd trefol a gwledig.

5.1 Mae'r adran hon yn nodi ein canfyddiadau. Dechreuir gyda chanlyniadau ein dadansoddiad atchweliad i archwilio'r berthynas rhwng yr angen am gyngor a ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill. Yna rydym yn cyflwyno amcangyfrif o gyfanswm y materion cyngor (yng Nghymru ac yn ôl ardal awdurdod lleol yn 2022/23) ac yn ystyried pob categori angen yn ei dro cyn rhoi sylw i sut mae anghenion yn debygol o esblygu yn y blynyddoedd i ddod, yn seiliedig ar ragolygon cyfredol a senarios ychwanegol.

Y berthynas rhwng yr angen am gyngor a ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill

5.2 Fel y disgrifir yn yr adran fethodoleg, lluniwyd cyfres amser o gyngor sydd ei angen yn seiliedig ar ddata hanesyddol. Yna gwnaed dadansoddiad ystadegol i archwilio'r cysylltiadau rhwng ein mesurau o angen cyngor a ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill er mwyn hwyluso'r gwaith o fodelu lefelau'r angen am gyngor yn y dyfodol. Mae Tabl 5.1 yn disgrifio'r perthnasoedd a welwyd. Disgrifir y broses ar

gyfer amcangyfrif y perthnasoedd hyn yn fanylach yn yr adran fethodoleg ac yn Atodiad A, a hefyd cynhwysir manylebau atchweliad llawn yn Atodiad C.

Tabl 5.1 Y berthynas rhwng amcangyfrifon o angen a ffactorau economaidd-gymdeithasol ar lefel awdurdod lleol

Categori	Ffactor economaidd-gymdeithasol	Perthynas
Budd-daliadau lles	Cyfradd twf cyflogau cyfartalog (oediad 1 flwyddyn)	Mae cynnydd o 1 pwynt canran ³⁰ mewn cyfradd twf cyflogau cyfartalog yn gysylltiedig â 1.6% yn llai o angen am gyngor budd-daliadau lles.
	Poblogaeth awdurdod lleol	Mae 1% o dwf y boblogaeth yn gysylltiedig ag angen sydd 3.2% yn uwch am gyngor ar fudd-daliadau lles.
Dyledion	Cyfraddau morgais cyfartalog (oediad 1 flwyddyn)	Mae 1 pwynt canran o gyfraddau morgais uwch yn y flwyddyn flaenorol yn gysylltiedig â chynnydd o 31% yn yr angen am gyngor ar ddyledion
	Cyfradd twf cyflogau cyfartalog (oediad 1 flwyddyn)	Mae cynnydd o 1 pwynt canran mewn cyfradd twf cyflogau cyfartalog yn gysylltiedig â 3.7% yn llai o angen am gyngor dyledion.
Cyflogaeth	Graddfa diweithdra	Mae cyfradd ddiweithdra 1 pwynt canran yn uwch yn gysylltiedig ag angen sydd 5.5% yn uwch am gyngor cyflogaeth.
	Twf CDG lleol fesul pen (oediad 1 flwyddyn)	Cynnydd o 1 pwynt canran mewn cyfradd twf cyflogau cyfartalog yn gysylltiedig â 3.7% yn llai o angen am gyngor cyflogaeth.
Tai a Chymdogion	Cyfraddau morgais cyfartalog (oediad 1 flwyddyn)	Mae cyfradd morgais 1 pwynt canran yn uwch yn y flwyddyn flaenorol yn gysylltiedig ag angen sydd 46% yn uwch am gyngor tai a chymdogion.
	Graddfa diweithdra	Mae cyfradd ddiweithdra 1 pwynt canran yn uwch yn gysylltiedig ag

³⁰ Byddai cynnydd o un pwynt canran yn mynd o 2% i 3%. Byddai cynnydd o un y cant yn ddangosydd yn mynd o 100 i 101.

		angen sydd 3.8% yn uwch am gyngor tai a chymdogion
Defnyddwyr a Chyllid	Twf CDG lleol fesul pen	Mae twf CDG 1 pwynt canran yn uwch y pen yn y flwyddyn flaenorol yn gysylltiedig â 0.62% yn llai o angen am gyngor defnyddwyr a chyllid.
	Prisiau nwy (oediad 1 flwyddyn)	Mae pris nwy 1% yn uwch yn y flwyddyn flaenorol yn gysylltiedig ag angen sydd 0.3% yn uwch am gyngor defnyddwyr a chyllid
	Cyfradd twf cyflogau cyfartalog (oediad 1 flwyddyn)	Cynnydd o 1 pwynt canran mewn cyfradd twf cyflogau cyfartalog yn gysylltiedig â 10% yn llai o angen am gyngor defnyddwyr a chyllid.

Noder: Cyfrifiadau Alma Economics. Yr holl rifau yn cael eu hadrodd i ddau ffigwr arwyddocaol.

- 5.3 Canfuom fod twf cyflogau uwch a thwf CDG uwch y pen yn gysylltiedig ag anghenion cyngor is mewn categorïau lluosog. Mewn cyferbyniad, mae diweithdra uwch, prisiau nwy uwch a phoblogaeth uwch i gyd yn gysylltiedig ag anghenion cyngor uwch.
- 5.4 Canfuom hefyd fod cyfraddau morgais cyfartalog uwch yn gysylltiedig ag angen uwch am gyngor ar ddyledion a chyngor ar dai a chymdogion. Byddem yn disgwyl hyn gan fod cyfraddau morgais uwch yn effeithio ar fforddiadwyedd tai a chostau byw yn gyffredinol.
- 5.5 Canfuom fod newid un pwynt canran yn y cyfraddau morgais cyfartalog yn cael mwy o effaith ar angen am gyngor na newid un pwynt canran yn y ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill a ystyriwyd gennym. Mae hyn yn adlewyrchu'r gydberthynas gref rhwng yr angen am gyngor a chyfraddau morgais a'r ffaith bod cyfraddau morgais cyfartalog yn llai cyfnewidiol na llawer o gyfresi eraill e.e., mae newid un pwynt canran mewn cyfraddau morgais yn newid cymharol llawer mwy na newid o un y cant mewn prisiau nwy. Mae cyfraddau morgais cyfartalog yn llai cyfnewidiol na rhai mesurau eraill o gyfraddau llog oherwydd eu bod yn adlewyrchu'r ffaith, i'r rhan fwyaf o berchnogion tai, nad yw eu cyfraddau morgais yn addasu ar unwaith i gyd-fynd â'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Yn lle hynny, mae'r cyfraddau morgais y mae pobl yn eu talu yn aml yn sefydlog am gyfnod.

Lefelau o angen cyngor

- 5.6 Yna defnyddiwyd y perthnasoedd yn Nhabl 5.1 i fwrw ymlaen a rhagweld lefelau'r angen am gyngor yn seiliedig ar ragolygon o'r ffactorau economaidd-gymdeithasol a restrir uchod a rhagamcanion poblogaeth. Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad hwn isod.
- 5.7 Mae'r modelau a ddatblygwyd yn rhagfynegol yn yr ystyr eu bod yn nodi cydberthnasau yn hytrach na pherthnasoedd achosol ac felly dylid eu dehongli yn y cyd-destun hwn. Yn benodol, mae gwahaniaethau rhwng y rhagolygon i wahanol awdurdodau lleol yn cael eu hysgogi gan amrywiadau mewn rhagolygon macro-economaidd a gwahaniaethau yn y mesurau hanesyddol o angen, a gymerir fel pwynt ymadael ar gyfer ein rhagolygon.

Cyfanswm y lefelau o angen cyngor

- 5.8 Mae Tabl 5.2 yn nodi cyfanswm amcangyfrifedig y materion cyngor yng Nghymru yn 2022/23. Cyfanswm yr anghenion cyngor amcangyfrifedig ar draws y pum categori a gynhwysir yw 916,000. Amcangyfrifir mai'r awdurdod lleol sydd â'r nifer fwyaf o anghenion cyngor yw Caerdydd (100,000), a'r ffigur isaf a gofnodwyd yw Merthyr Tudful (18,000). Mae'n debygol iawn y bydd gan rai unigolion anghenion cyngor lluosog sy'n gorgyffwrdd. Er enghraifft, gallai unigolion sy'n cael trafferth gyda materion fforddiadwyedd tai elwa ar gyngor ar ddyledion neu les yn ogystal â chyngor ar dai. Felly, mae nifer y materion a nodir isod yn debygol o fod yn uwch na chyfanswm y bobl a fyddai'n elwa o dderbyn cyngor. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gweithwyr proffesiynol cyngor arbenigol lluosog i gefnogi unigolyn sydd ag anghenion cyngor lluosog, felly mae cyfanswm nifer y materion yn dal i fod yn ffigur perthnasol wrth ystyried cyfanswm lefel yr angen yn y boblogaeth.
- 5.9 Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod nifer y materion yn llawer uwch na'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau cynghori. Er mwyn cymharu, mae data gan Cyngor ar Bopeth Cymru (y darparwr cyngor unigol mwyaf) yn dangos eu bod wedi cefnogi 130,000 o unigolion gyda chyfanswm o bron i 230,000 o broblemau yng Nghymru rhwng Mai 2022 a Mai 2023.³¹ Cymhariaeth ddangosol yn unig yw hon gan fod darparwyr cyngor eraill, ac mae data Cyngor ar Bopeth Cymru yn cynnwys

³¹ Cyngor ar Bopeth (2023b). Tab: *Pobl: Cyfrif: Hidlyddion: Rhanbarth: Cymru*

ystod ehangach o categorïau angen cyngor nag yr ydym wedi'u hystyried (e.e., mae materion yn ymwneud â mewnfudo, treth, a theithio a thrafnidiaeth wedi'u cynnwys fel categorïau ar wahân). Roedd y materion hyn y tu allan i gwmpas yr adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r materion a gofnodwyd yn dod o dan y categorïau a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn a'r ddau gategori mwyaf a gofnodwyd gan Gyngor ar Bopeth yw materion yn ymwneud â budd-daliadau a dyledion (dros 100,000 o faterion gyda'i gilydd).

- 5.10 Yn ôl y disgwyl, mae nifer y materion ar ei uchaf yn yr awdurdodau lleol mwyaf poblog fel Caerdydd, Abertawe a Rhondda Cynon Taf. Rydym yn ystyried gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol trefol a gwledig yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Tabl 5.2: Nifer o faterion cyngor (2022/23)

Awdurdod Lleol	Nifer o faterion
Ynys Môn	21,000
Gwynedd	34,000
Conwy	38,000
Sir Ddinbych	24,000
Sir y Fflint	38,000
Wreccsam	33,000
Ceredigion	25,000
Sir Benfro	39,000
Sir Gaerfyrddin	63,000
Abertawe	74,000
Castell-nedd Port Talbot	49,000
Penybont ar Ogwr	46,000
Bro Morgannwg	32,000
Caerdydd	100,000
Rhondda Cynon Taf	70,000
Caerffili	52,000
Blaenau Gwent	20,000
Torfaen	26,000
Sir Fynwy	31,000
Casnewydd	44,000
Powys	40,000
Merthyr Tudful	18,000
Cymru	916,000

Noder: Cyfrifiadau Alma Economics. Mae pob ffigur wedi'i dalgrynnu i'r mil agosaf. Gall unigolion gael materion cyngor mewn categorïau lluosog felly bydd nifer yr unigolion ag anghenion cyngor yn is na chyfanswm y materion cyngor a gofnodir yma.

Budd-daliadau lles

- 5.11 Yr angen am gyngor ar fudd-daliadau yw un o'r rhesymau a nodir amlaf dros unigolion yn ceisio cyngor³². Gall anghenion yn y maes hwn gwmpasu materion fel cymhwysedd, prosesau ymgeisio, prosesau ailasesu a sancsiynau.
- 5.12 Rydym yn amcangyfrif y byddai 296,000 o unigolion ledled Cymru, 11% o'r boblogaeth, wedi elwa ar wasanaethau cynghori yn ymwneud â lles yn 2022/23. Mae cyfanswm lefel yr angen a amcangyfrifir yn gredadwy o'i gymharu â data gweinyddol am nifer y rhai sy'n hawlio budd-daliadau allweddol yng Nghymru. Er enghraifft, ym mis Gorffennaf 2023, roedd 297,244 o bobl ar Gredyd Cynhwysol³³ a 242,144 o bobl yn derbyn Taliadau Annibyniaeth Bersonol³⁴. Ni fydd angen cyngor ar bob unigolyn sy'n derbyn budd-daliadau lles, ond gallai llawer elwa ar gyngor yn ymwneud â chymhwysedd ac asesu, tra byddai rhai unigolion nad ydynt yn derbyn budd-daliadau ar hyn o bryd hefyd angen cyngor yn y categori hwn.
- 5.13 Yr ardaloedd â'r nifer uchaf o unigolion ag angen cyngor lles oedd Rhondda Cynon Taf, Caerdydd ac Abertawe. Caiff hyn ei ysgogi gan y poblogaethau mawr a'r nifer fawr o hawlwyd budd-daliadau yn yr ardaloedd dan sylw (er enghraifft, dyma'r tri awdurdod lleol yng Nghymru sydd â'r nifer uchaf o hawlwyd Credyd Cynhwysol). Mae Tabl 5.3 yn nodi amcangyfrifon o lefel yr angen ym mhob awdurdod lleol yn 2022/23 mewn termau absoliwt ac fel canran o'r boblogaeth leol.
- 5.14 Yr awdurdodau lleol sydd â'r ganran uchaf o'u poblogaeth mewn angen yw Rhondda Cynon Taf (16%), Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot a Cheredigion (14%). Byddem yn disgwyl lefelau uwch o anghenion cyngor lles mewn ardaloedd o amddifadedd uwch. Yn wir, mae ein canfyddiadau'n gyson â data o Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n dangos mai Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot oedd yr awdurdodau lleol â'r gyfran fwyaf o bobl yn byw

³² Cyngor ar Bopeth (2023b). Tab: *Pobl: Count* Hidlyddion: *Rhanbarth: Cymru*

³³ Data ar gael yn [Stat-Xplore \(DWP\)](#). Y set ddata yw Pobl ar Gredyd Cynhwysol.

³⁴ Data ar gael yn [Stat-Xplore \(DWP\)](#). Y set ddata yw Achosion PIP gyda Hawl.

mewn amddifadedd materol yn 2022/23³⁵. Roedd lefelau amddifadedd hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru yng Ngheredigion a Merthyr Tudful ac yn gyfartalog ym Mhen-y-bont ar Ogwr (Llywodraeth Cymru 2023b).

- 5.15 Yr awdurdodau lleol gyda'r ganran isaf o'u poblogaeth mewn angen oedd Wrecsam a Chaerdydd (gydag 8% yr un). Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn awgrymu bod gan yr ardaloedd hyn lefelau cyfartalog neu is na'r cyfartaledd o amddifadedd.

Tabl 5.3: Angen cyngor ar fudd-daliadau lles (2022/23)

Awdurdod Lleol	Nifer o bobl	% o'r boblogaeth (16+)
Ynys Môn	6,000	11%
Gwynedd	13,000	12%
Conwy	12,000	13%
Sir Ddinbych	8,000	10%
Sir y Fflint	13,000	10%
Wrecsam	9,000	8%
Ceredigion	8,000	14%
Sir Benfro	13,000	12%
Sir Gaerfyrddin	18,000	12%
Abertawe	25,000	12%
Castell-nedd Port Talbot	17,000	14%
Penybont ar Ogwr	17,000	14%
Bro Morgannwg	10,000	9%
Caerdydd	23,000	8%
Rhondda Cynon Taf	31,000	16%
Caerffili	18,000	12%
Blaenau Gwent	7,000	12%
Torfaen	8,000	11%
Sir Fynwy	7,000	9%
Casnewydd	14,000	11%
Powys	12,000	11%
Merthyr Tudful	7,000	14%
Cymru	296,000	11%

Noder: Cyfrifiadau Alma Economics. Yr Yr holl ffigurau poblogaeth wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf.

Dyledion

³⁵ Mae amddifadedd materol yn fesur o safonau byw yn seiliedig ar allu person i brynu nwyddau a gwasanaethau.

- 5.16 Mae materion sy'n ymwneud â dyledion yn rheswm cyffredin arall dros geisio cyngor. Gall cyngor ar ddyledion helpu unigolion i reoli dyledion cyfredol ochr yn ochr ag ymrwymadau ariannol eraill. Rydym yn amcangyfrif y byddai cyfanswm o 153,000 o bobl (6% o'r boblogaeth 16+) yn elwa o gyngor ar ddyledion. Mae'r ffigur hwn ychydig yn is na'r amcangyfrifon gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau. Mae eu gwaith yn seiliedig ar arolwg mawr o anghenion dyled ac yn defnyddio sail wahanol ar gyfer asesu angen. Fodd bynnag, credwn fod modd cymharu'r amcangyfrifon yn fras gan y gellid meddwl hefyd fod rhai o'r materion fforddiadwyedd yr ydym wedi'u dynodi fel rhai sy'n creu angen mewn categorïau eraill (e.e. lle mae'r mater yn ymwneud â thai neu ynni) yn creu angen am gyngor ar ddyledion, a byddai hyn yn dod â'n hamcangyfrifon yn nes at rai'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau.
- 5.17 Mae Tabl 5.4 yn nodi nifer amcangyfrifedig y bobl a'r gyfran o'r boblogaeth sydd angen cyngor ar ddyledion fesul awdurdod lleol.
- 5.18 Yr awdurdodau lleol sydd â'r ganran uchaf o'u poblogaeth gydag angen cyngor ar ddyledion yw Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro (gyda 9% yr un). Sbardunwyd hyn gan niferoedd uwch o ymatebwyr Deall Cymdeithas yn yr ardaloedd hyn a nododd eu bod ar ei hôl hi gyda biliau neu'n cael trafferth talu'r dreth gyngor. Fodd bynnag, mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol rhwng 4% a 6% o'r boblogaeth mewn angen.

Tabl 5.4: Angen cyngor ar ddyledion (2022/23)

Awdurdod Lleol	Nifer o bobl	% o'r boblogaeth (16+)
Ynys Môn	4,000	6%
Gwynedd	5,000	5%
Conwy	5,000	5%
Sir Ddinbych	3,000	4%
Sir y Fflint	6,000	4%
Wrecsam	6,000	6%
Ceredigion	5,000	8%
Sir Benfro	9,000	9%
Sir Gaerfyrddin	14,000	9%
Abertawe	13,000	6%
Castell-nedd Port Talbot	8,000	7%
Penybont ar Ogwr	7,000	6%
Bro Morgannwg	6,000	5%
Caerdydd	18,000	6%

Rhondda Cynon Taf	9,000	4%
Caerffili	8,000	5%
Blaenau Gwent	4,000	7%
Torfaen	5,000	6%
Sir Fynwy	5,000	7%
Casnewydd	6,000	5%
Powys	6,000	6%
Merthyr Tudful	2,000	5%
Cymru	153,000	6%

Noder: Cyfrifiadau Alma Economics. Yr holl ffigurau poblogaeth wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf.

Cyflogaeth

- 5.19 Rydym yn amcangyfrif y gallai 119,000 o bobl elwa ar gyngor ar faterion cyflogaeth. Ymhlith y pum categori o angen, dyma'r categori lleiaf amlwg. Er hynny, efallai y bydd angen y math hwn o gyngor ar gyfran sylweddol o boblogaeth Cymru (5% o'r boblogaeth 16+). Gall 'cyngor' gynnwys cymorth gyda thelerau ac amodau swydd, taliadau a hawliadau, hawliau rhieni a gofalwyr, datrys anghydfod, a materion ymddiswyddo, diswyddo neu ddileu swydd. Yr awdurdodau lleol sydd ag angen uwch am gyngor yw'r rhai sydd â'r poblogaethau mwyaf (yn enwedig Caerdydd a Rhondda Cynon Taf).
- 5.20 Mae Tabl 5.5 yn nodi nifer amcangyfrifedig y bobl sydd angen cyngor cyflogaeth a chanran y boblogaeth ym mhob awdurdod lleol.
- 5.21 Yr awdurdodau lleol â'r gyfran uchaf o'u poblogaeth sydd angen cyngor cyflogaeth yw Sir Fynwy a Merthyr Tudful. Mae hyn yn adlewyrchu nifer uwch o unigolion yn yr ardaloedd hyn sy'n codi pryderon am sicrwydd swydd neu foddhad swydd wrth ymateb i arolwg Deall Cymdeithas. Yn yr un modd ag anghenion dyled, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi'u clystyru'n dynn o amgylch ffigur cyfartalog o 5%.

Tabl 5.5: Angen cyngor ar gyflogaeth (2022/23)

Awdurdod Lleol	Nifer o bobl	% o'r boblogaeth (16+)
Ynys Môn	2,000	4%
Gwynedd	3,000	3%
Conwy	3,000	3%
Sir Ddinbych	4,000	6%
Sir y Fflint	5,000	4%
Wrecsam	4,000	3%
Ceredigion	3,000	6%

Sir Benfro	3,000	3%
Sir Gaerfyrddin	5,000	3%
Abertawe	10,000	5%
Castell-nedd Port Talbot	5,000	4%
Penybont ar Ogwr	7,000	5%
Bro Morgannwg	3,000	3%
Caerdydd	14,000	5%
Rhondda Cynon Taf	12,000	6%
Caerffili	8,000	6%
Blaenau Gwent	2,000	4%
Torfaen	3,000	3%
Sir Fynwy	7,000	8%
Casnewydd	5,000	4%
Powys	5,000	5%
Merthyr Tudful	3,000	7%
Cymru	119,000	5%

Noder: Cyfrifiadau Alma Economics. Yr holl ffigurau poblogaeth wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf.

Tai a Chymdogion

- 5.22 Amcangyfrifir bod 169,000 o unigolion (6% o'r boblogaeth 16+) a fyddai'n elwa o gyngor yn ymwneud â materion tai a chymdogion. Gall materion o'r fath gynnwys cymorth gyda thai cymdeithasol neu eiddo rhent y sector preifat, digartrefedd, a phroblemau amgylcheddol neu â chymdogion. Gan Gaerdydd y mae'r lefel absoliwt uchaf o angen cyngor, a lefelau uchel o angen fel cyfran o'r boblogaeth. Mae hyn yn unol â data digartrefedd gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos bod digartrefedd yng Nghaerdydd yn uwch nag mewn mannau eraill yng Nghymru³⁶. Yr ardaloedd eraill â lefelau uchel o anghenion cyngor ar dai a chymdogion oedd Casnewydd a Sir Gaerfyrddin sydd, unwaith eto, yn unol â lefelau uchel o ddigartrefedd yn yr ardaloedd hyn o gymharu â'u boblogaeth.
- 5.23 Mae Tabl 5.6 yn cyflwyno amcangyfrif o nifer y bobl sydd angen cyngor ar dai a chymdogion fesul awdurdod lleol a chanran y boblogaeth ym mhob awdurdod lleol.

Tabl 5.6: Angen cyngor ar dai a chymdogion (2022/23)

Awdurdod Lleol	Nifer o bobl	% o'r boblogaeth (16+)
Ynys Môn	4,000	7%
Gwynedd	6,000	6%
Conwy	8,000	8%

³⁶ Data 2022-23 (Llywodraeth Cymru 2023a)

Sir Ddinbych	5,000	6%
Sir y Fflint	7,000	5%
Wreccsam	6,000	6%
Ceredigion	4,000	6%
Sir Benfro	6,000	6%
Sir Gaerfyrddin	14,000	9%
Abertawe	10,000	5%
Castell-nedd Port Talbot	6,000	5%
Penybont ar Ogwr	8,000	6%
Bro Morgannwg	6,000	5%
Caerdydd	23,000	8%
Rhondda Cynon Taf	9,000	4%
Caerffili	11,000	7%
Blaenau Gwent	4,000	7%
Torfaen	6,000	7%
Sir Fynwy	6,000	7%
Casnewydd	12,000	9%
Powys	8,000	7%
Merthyr Tudful	3,000	5%
Cymru	169,000	6%

Noder: Cyfrifiadau Alma Economics. Yr holl ffigurau poblogaeth wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf.

Defnyddwyr a Chyllid

- 5.24 Angen cyngor defnyddwyr a chyllid yw'r ail gategori mwyaf cyffredin o angen. Rydym yn amcangyfrif y gallai mwy na 179,000 o unigolion yng Nghymru (7% o'r boblogaeth 16+) elwa ar y math hwn o gyngor. Gall cyngor defnyddwyr a chyllid gynnwys materion yn ymwneud ag ynni a systemau gwresogi, yswiriant, cynilion, a phensiynau yn ogystal â materion yn ymwneud â thwyll neu sgamiau. Ymhlith awdurdodau lleol, Caerdydd ac Abertawe sydd â'r nifer fwyaf o bobl angen cyngor.
- 5.25 Yr ardaloedd gyda'r lefel uchaf o angen fel cyfran o'r boblogaeth yw Conwy (10%) a Chastell-nedd Port Talbot (11%). Sbardunwyd hyn gan niferoedd mwy na'r cyfartaledd o ymatebwyr i arolwg Deall Cymdeithas a oedd yn nodi anawsterau o ran gwresogi eu cartrefi neu wario mwy nag 20% o incwm y cartref ar danwydd. Yr ardal â'r angen cyfrannol isaf oedd Rhondda Cynon Taf (4%).
- 5.26 Mae Tabl 5.7 yn cyflwyno, fesul awdurdod lleol, nifer amcangyfrifedig y bobl a allai elwa ar gyngor defnyddwyr a chyllid a chanran y boblogaeth ym mhob awdurdod lleol.

Tabl 5.7: Angen cyngor defnyddwyr a chyllid – nifer (2022/23)


Awdurdod Lleol	Nifer o bobl	% o'r boblogaeth (16+)
Ynys Môn	5,000	8%
Gwynedd	7,000	6%
Conwy	10,000	10%
Sir Ddinbych	4,000	5%
Sir y Fflint	7,000	6%
Wrecsam	8,000	7%
Ceredigion	5,000	9%
Sir Benfro	8,000	7%
Sir Gaerfyrddin	12,000	8%
Abertawe	16,000	8%
Castell-nedd Port Talbot	13,000	11%
Penybont ar Ogwr	7,000	5%
Bro Morgannwg	7,000	6%
Caerdydd	22,000	7%
Rhondda Cynon Taf	9,000	4%
Caerffili	7,000	5%
Blaenau Gwent	3,000	5%
Torfaen	4,000	5%
Sir Fynwy	6,000	7%
Casnewydd	7,000	5%
Powys	9,000	8%
Merthyr Tudful	3,000	6%
Cymru	179,000	7%

Noder: Cyfrifiadau Alma Economics. Yr holl ffigurau poblogaeth wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf.

Esblygiad angen

5.27 Yn ogystal, rydym wedi rhagweld lefelau'r angen am gyngor hyd at flwyddyn ariannol 2025/26. Yn seiliedig ar ragolygon macro-economaidd cyfredol, amcangyfrifir y bydd anghenion y pen yn aros yn weddol wastad o ran lles a chyflogaeth. Mae prisiau nwy uchel a rhagolygon twf gwan mewn cyflogau yn gysylltiedig â lefelau uchel o anghenion defnyddwyr a chyllid. Wrth i brisiau ddisgyn o'u hanterth ac wrth i'r twf a ragwelir mewn cyflogau gynyddu, bydd anghenion cyngor defnyddwyr a chyllid yn gostwng. Dengys y cyfraddau morgais uwch bod cyfraddau dyledion ac anghenion tai yn debygol o godi. Mae Ffigur 5.1 yn nodi hyn yn fanylach.

Ffigur 5.1: Esblygiad angen yng Nghymru (2022/23-2025/26)



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Alma Economics


Dadansoddiad senario

- 5.28 Mae ein hamcangyfrifon o angen yn y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar ragolygon gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhagolygon hyn yn cynrychioli eu rhagolygon cyfredol gorau, ond mae ffactorau annisgwyl yn debygol iawn o olygu y bydd y realiti yn wahanol. Drwy fodelu gwahanol senarios, gallwn ddeall sut y byddai newidiadau mewn rhagolygon sylfaenol yn effeithio ar lefelau angen am gyngor.
- 5.29 Er mwyn deall sut y gallai siociau economaidd yn y dyfodol effeithio ar yr angen tymor byr am gyngor, rydym wedi cynnal dadansoddiad senario dangosol ar gyfer meysydd cyngor tai a chymdogion a defnyddwyr a chyllid. Dewiswyd y meysydd hyn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch esblygiad cyfraddau morgais a phrisiau ynni yn y dyfodol. Ar gyfer pob un o'r meysydd cyngor hyn, rydym wedi dadansoddi effaith senario ffafriol ac anffafriol o gymharu â'r rhagolygon presennol. Isod, disgrifiwn y gwahanol senarios ynghyd â'u goblygiadau ar gyfer yr angen am gyngor.

Effaith newid prisiau nwy ar anghenion defnyddwyr a chyllid

5.30 Ar gyfer y senario cyngor defnyddwyr a chyllid, dewiswyd dwy senario ddangosol a oedd o fewn terfynau newidiadau blaenorol mewn amodau economaidd a welwyd. Y rhagdybiaeth ffafriol oedd y byddai prisiau nwy 20% yn is na'r hyn a ragwelwyd ym mhob blwyddyn o 2022/23 ymlaen. Y senario anffafriol oedd y byddai prisiau nwy yn aros ar lefelau 2022/23 hyd at 2024/25. Mae Ffigur 5.2 yn nodi'r senarios hyn o'u cymharu â'r rhagamcaniad craidd.

Ffigur 5.2: Dadansoddiad senario ar gyfer anghenion defnyddwyr a chyllid



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Alma Economics

5.31 Yn ôl ein rhagamcanion craidd yn seiliedig ar ragolygon OBR cyfredol, bydd lefel yr angen am gyngor defnyddwyr a chyllid yn cynyddu yn y tair blynedd nesaf, gan gyrraedd uchafbwynt o 10.3% o'r boblogaeth 16+ yn 2024/25. Mae hynny'n cyfateb i fwy na 270,000 o ddinasyddion sydd angen cyngor. Os bydd y senario anffafriol yn digwydd ("senario pris nwy uwch"), bydd lefel yr angen yn cynyddu'n sylweddol o 2023/24 ymlaen. Bydd ar lefel o 8.6% o'r boblogaeth 16+ yn 2023/24 (yn lle 7.3%), ac yn cyrraedd uchafbwynt o 11.7% yn 2024/25 cyn disgyn i 11.2% yn 2025/26. Mae hyn yn cyfateb i 225,000 o unigolion mewn angen yn 2023/24 a bron i 309,000 yn 2024/25.

5.32 I'r gwrthwyneb, os bydd y senario ffafriol yn digwydd ("senario pris nwy is"), bydd gostyngiad bach mewn angen o'i gymharu â'n rhagolwg canolog. Bydd cyfran y boblogaeth mewn angen yn 6.9% yn 2023/24, a 9.6% yn 2024/25 cyn disgyn i 8.6% yn 2025/26. Mae'r cyfrannau hyn yn cynrychioli 180,000 o bobl mewn angen yn 2023/24 a 252,000 yn 2024/25.

Effaith newid cyfraddau morgais ar anghenion tai a chymdogion


5.33 Ar gyfer angen cyngor tai a chymdogion, dewiswyd dwy senario ddangosol. Roedd y senario ffafriol yn un lle'r oedd cyfraddau morgais cyfartalog a wireddwyd 1 pwynt canran yn is na'r rhagolwg OBR ar gyfer pob blwyddyn o 2022/2023 ymlaen, a'r senario anffafriol oedd y rhagdybiaeth y byddai cyfraddau morgais un pwynt canran yn uwch na'r rhagolwg o 2022/2023 ymlaen. Mae Ffigur 5.3 yn nodi'r senarios hyn o'u cymharu â'r rhagamcaniad craidd.

5.34 Yn y rhagolwg craidd (sef yr amcanestyniad o angen cyngor heb dybio y bydd newid yn lefel y cyfraddau morgais), bydd yr angen am gyngor yn cynyddu o 6.5% o'r boblogaeth yn 2022/23 i 9.3% yn 2023/24 (sy'n cyfateb i tua 243,000 o unigolion) i 10.4% yn 2024/25 a 10.5% yn 2025/26. Os bydd y senario ffafriol yn digwydd ("Cyfraddau morgais is"), bydd lefel yr angen am gyngor yn dal i gynyddu dros y tair blynedd nesaf, ond bydd yn is na'r rhagolwg. Bydd cyfran y boblogaeth sydd angen cyngor o leiaf ddau bwynt canran yn is ym mhob blwyddyn: 6% yn 2023/24, 8.2% yn 2024/25 a 7.7% yn 2025/26.

5.35 Yn y senario anffafriol ("Cyfraddau morgais uwch"), bydd lefel yr angen am gyngor tai a chymdogion yn cynyddu'n aruthrol. Byddai cyfran y boblogaeth 16+ sydd angen cyngor tai a chymdogion yn 14.2% yn 2023/24 (dros 370,000 o bobl), 13.1% yn 2024/25 a 14.5% yn 2025/26.

5.36 Mae ein dadansoddiad yn canolbwyntio ar effaith newidiadau mewn cyfraddau morgais ar angen cyngor tai a chymdogion. Mae ein dadansoddiad hefyd yn awgrymu y byddai newidiadau mewn cyfraddau morgais yn gysylltiedig â newid yn yr angen am gyngor ar ddyledion. Felly, mae'r newidiadau a amlinellir yn y senario hwn yn tanddatgan yr effaith gyffredinol ar lefel yr anghenion cyngor.

Ffigur 5.3: Dadansoddiad senario ar gyfer anghenion tai a chymdogion



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Alma Economics

Gwahaniaethau gwledig-trefol ac anghenion cyngor

